# Ffioedd atwrneiaeth arhosol ac atwrneiaeth barhaus
o 1 Ebrill 2017 ymlaen

| | Ffi llawn | Esemptiad neu ostyngiad ar gael |
|---|---|---|
| Ffi Cais am atwrneiaeth arhosol (LPA) | £82 | Os yw'r rhoddwr yn gymwys, efallai bydd esemptiad neu ostyngiad ar gael (gweler y manylion isod) |
| Ffi Cais am atwrneiaeth barhaus (EPA) | £82 | |
| Ffi ailgyflwyno Cais am atwrneiaeth arhosol (LPA) | £41 | |
| Copi'r swyddfa/copi ardystiedig o atwrneiaeth arhosol | £35 | Nid oes esemptiad na ostyngiad ar gael |
| Copi'r swyddfa/ copi ardystiedig o atwrneiaeth Barhaus | £25 | |

**Esemptiad** – wpan nad oes rhaid i'r rhoddwr dalu oherwydd eu bod yn cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd penodol.

**Gostyngiad** – Gostyngiad ffi o 50% wedi'i seilio ar amgylchiadau ariannol y rhoddwr neu ostyngiad wedi'i seilio ar y rhoddwr yn derbyn Credyd Cynhwysol.

**Copi'r Swyddfa /Copi Ardystiedig** – copïau swyddogol a ddarperir mewn achosion arbennig

- Rhaid i chi dalu ffi pan fyddwch yn gwneud cais i gofrestru atwrneiaeth. Nid ellir ad-dalu ffioedd, hyd yn oed os na fydd yr atwrneiaeth wedi ei chofrestru.
- Telir ffioedd am y cais gan neu ar ran y rhoddwr – yr unigolyn sy'n gwneud yr atwrneiaeth. Os ydynt yn gwneud cais am y ddau fath o atwrneiaeth arhosol, yna bydd angen talu'r 2 ffi
- Telir ffioedd copi swyddfa gan y sawl sy'n gofyn am y ddogfen.

## Gwneud taliad

**Taliad ar-lein** – os ydych yn gwneud eich atwrneiaeth arhosol gan ddefnyddio arf digidol atwrneiaeth arhosol, gallwch wneud taliad ar-lein yn ddiogel gyda cherdyn debyd neu gerdyn debyd.

**Talu dros y ffôn gyda cherdyn credyd neu ddebyd** – os ydych eisiau talu fel hyn, nodwch hyn ar eich ffurflen gais (LPA002) neu eich llythyr eglurhaol, a byddwn yn cysylltu â chi.

**Talu gyda siec** – gwnewch eich sieciau yn daladwy i 'Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus' ac ysgrifennwch enw llawn y rhoddwr ar y cefn.

## Gwneud eich atwrneiaeth arhosol ar lein

Os nad ydych chi wedi gwneud eich atwrneiaeth arhosol, gallwch ddefnyddio'r **arf digidol atwrneiaeth arhosol**. Bydd yn:

- eich cynorthwyo i wneud eich atwrneiaeth arhosol
- eich tywys i'r cam gofrestru
- yn eich caniatáu i dalu ar-lein neu gyda siec

**www.gov.uk/lasting-power-of-attorney**

## Esemptiad a gostwng ffioedd gwneud cais

Efallai bod gan y rhoddwr hawl i esemptio neu ostwng ffioedd gwneud cais, yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau ariannol. Dim ond budd-daliadau ac incwm y rhoddwr sy'n berthnasol.

I wneud cais, rhaid i chi:

- lenwi ffurflen LPA120A (sydd i'w chael ar ôl y daflen wybodaeth hon) a llofnodwch y datganiad.
- casglu tystiolaeth gefnogol – **ni allwn ystyried hawliad heb dystiolaeth** felly sicrhewch eich bod yn darllen yr adrannau ar dudalen 2 ynghylch tystiolaeth gefnogol dderbyniol.
- anfon eich ffurflen LPA120A atom a'ch tystiolaeth ynghyd â'ch ffurflenni atwrneiaeth arhosol neu atwrneiaeth barhaus pan fyddwch yn gwneud cais i gofrestru.

Os ydych yn cofrestru 2 atwrneiaeth ar yr un pryd, dim ond un ffurflen LPA120A y bydd angen i chi ei llenwi.

 © Crown copyright 2017

## Esemptiad

Os yw'r rhoddwr yn derbyn unrhyw rai o'r budddaliadau canlynol sy'n seiliedig ar brawf modd, gallant wneud cais am esemptiad, neu gall eu hatwrnai neu gyfreithiwr wneud hynny ar eu rhan:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- **Elfen Credyd Gwarant** o Bensiwn y Wladwriaeth
- Budd-dal Tai
- Cymorth/ Gostyngiad y Dreth Gyngor – a adnabyddir gan enwau eraill (nid y gostyngiad 25% ar gyfer unigolyn sengl neu esemptiad Dosbarth U)
- Lwfans Tai Lleol
- Cyfuniad o Gredyd Treth Gwaith **ac o leiaf un o'r canlynol:**
  - Credyd Treth Plant
  - Elfen Anabledd y Credyd Treth Gwaith
  - Elfen Anabledd Difrifol y Credyd Treth Gwaith

  **Heb gynnwys:** Lwfans Byw i'r Anabl, Budd-dal Analluedd, Taliad Annibyniaeth Personol

### Eithriad

Os bydd y rhoddwr wedi cael **iawndal am anaf personol o dros £16,000** wedi'i ddyfarnu iddo, a gafodd ei ddiystyru pan aseswyd y rhoddwr ar gyfer un o'r budd-daliadau uchod, yna ni fyddant yn gymwys am esemptiad.

### Tystiolaeth gefnogol ar gyfer esemptiad

Bydd angen i chi **anfon copïau o lythyrau gan ddarparwr budd-dal** yn dangos bod y rhoddwr wedi derbyn o leiaf 1 o'r budd-daliadau a restrir ar yr amser y gwnaethoch gais i gofrestru. Rhaid i lythyrau gadarnhau bod y budd-dal yn cael ei dalu i'r rhoddwr a chynnwys eu manylion mewn print bras (teitl, enw llawn, cyfeiriad a chod post).

## Manylion Cyswllt Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
Blwch Swyddfa'r Post 16185
Birmingham B2 2WH

**DX:** 744240 Birmingham 79

**Ffôn:** 0300 456 0300
(galwadau o'r tu allan i'r DU +44,300 456 0300)
**Ffôn testun:** 0115 934 2778
**Ffacs:** 0870 739 5780
Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am – 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener (Dydd Mercher 10am tan 5pm)

**Ebost:** customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk
**Ar-lein:** www.gov.uk/power-of-attorney

## Gostyngiad ar sail incwm

Os yw incwm blynyddol gros y rhoddwr yn llai na £12,000, efallai y byddant yn gymwys am 50% gostyngiad o'r ffi. Incwm blynyddol gros yw incwm cyn treth. Gall ddod o gyflogaeth, budd-daliadau sydd ddim yn seiliedig ar brawf modd (megis Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Personol), pensiynau, Credyd Cynilion Pensiwn, llog o gynilion a buddsoddiadau, neu'r rhent o eiddo.

### Tystiolaeth gefnogol dros ostyngiad

Bydd angen i chi **anfon prawf o incwm blynyddol gros y rhoddwr.** Mae'n rhaid i'r dystiolaeth fod yn gysylltiedig â'r cyfnod lle anfonasoch y cais i gofrestru. Ni allwn dderbyn cyfriflenni banc. Gall y dystiolaeth fod fel a ganlyn:

**Cyflogaeth am dâl** – P60 neu slipiau cyflog 3 mis dilynol o'r swydd bresennol.

**Pensiynau a Budd-daliadau sydd ddim yn seiliedig ar brawf modd** – llythyr swyddogol neu hysbysiad gan y talwr.

**Llog o gyfalaf, stociau, cyfranddaliadau neu fond** – cyfriflenni neu dalebau yn dangos incwm gros.

**Hunangyflogaeth** – ffurflen dreth hunan asesiad mwyaf diweddaraf a chyfrifiad treth HMRC, neu gyfrif archwiliedig wedi ei ardystio gan gyfrifydd cymwys.

**Os nad yw'r rhoddwr yn derbyn incwm**, mae'n rhaid iddynt anfon datganiad wedi'i lofnodi yn egluro sut y maent yn cynnal eu hunain. Os nad oes ganddynt y galluedd meddyliol, gall eu hatwrnai neu gyfreithiwr ddarparu a llofnodi'r datganiad.

## Dilead wedi'i seilio ar Gredyd Cynhwysol

Gall roddwr fod yn gymwys am ddilead os ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol

### Tystiolaeth gefnogol ar gyfer Credyd Cynhwysol

Bydd angen i chi anfon copïau o lythyrau yn dangos bod y rhoddwr yn derbyn Credyd Cynhwysol ar yr amser y gwnaethoch gais i gofrestru. Rhaid i lythyrau gadarnhau bod y budd-dal yn cael ei dalu i'r rhoddwr a chynnwys eu manylion mewn print bras (teitl, enw llawn, cyfeiriad a chod post).

## Adolygu

Os yw cais am esemptiad neu ddilead yn aflwyddiannus, cewch apelio o fewn 4 wythnos o'r penderfyniad drwy ysgrifennu at Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol. Os cafodd y penderfyniad gwreiddiol ei amddiffyn, caiff ei gyfeirio at y Gwarcheidwad Cyhoeddus i'w gadarnhau.

## Caledi

Os nad yw'r rhoddwr yn gymwys i gael esemptiad neu ostwng y ffïoedd, ond y byddai talu'r ffïoedd yn achosi caledi mawr - er enghraifft, byddai talu'r ffi yn ei gwneud hi'n anodd talu costau byw arferol – cewch wneud cais i gael y ffioedd wedi'u hepgor. I wneud hyn, ysgrifennwch at Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn egluro pam fyddai talu yn achosi caledi, gan amgáu cyfriflenni banc a dogfennau eraill yn dangos cynilion, incwm a thaliadau allan.

# Cais am esemptiad neu ostyngiad ffioedd cais atwrneiaeth arhosol/atwrneiaeth barhaus

LPA120A

Ailosod | Argraffu

## Rhan 1 – Ynglŷn â'r achos

Enw llawn y Rhoddwr

Cyfeiriad y Rhoddwr

Rhif yr achos (os ydych yn ei wybod)
***Fe gewch hwn ar eich llythyrau***

I ba ffi y mae'r cais hwn yn berthnasol?

- ☐ Ffi Cais am atwrneiaeth arhosol (LPA)
- ☐ Ffi Cais am atwrneiaeth barhaus (EPA)
- ☐ Ffi ailgyflwyno cais am atwrneiaeth arhosol (LPA)

Pa atwrneiaeth yr ydych wedi ei chynnwys i'w gofrestru?

- ☐ Atwrneiaeth arhosol ar gyfer iechyd a lles
- ☐ Atwrneiaeth arhosol ar gyfer eiddo a materion ariannol
- ☐ Atwrneiaeth barhaus

## Adran 2 – Amdanoch chi

Beth yw eich cysylltiad â'r achos? ☐ Rhoddwr ☐ Atwrnai ☐ Arall (nodwch)

Teitl ☐ Mr ☐ Ms ☐ Miss ☐ Mrs ☐ Arall

Enw cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad (gan gynnwys cod post)

Rhif ffôn — Yn ystod y dydd / Symudol

Cyfeiriad e-bost

Os ydych eisoes wedi talu'r ffi, a'r cais am ostyngiad/esemptiad yn llwyddiannus, nodwch i bwy y dylid addalu'r ffi?

parhad drosodd ➥



© Crown copyright 2017

## Adran 3 - Gostwng ffi ar sail budd-daliadau a ganiateir

**3a** Ydy'r Rhoddwr yn derbyn unrhyw un o'r budddaliadau isod?

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- **Elfen Credyd Gwarant** Pensiwn y Wladwriaeth
- Budd-dal Tai
- Gostyngiad/Cymorth Treth Gyngor - a adnabyddir gydag enwau eraill (nid y gostyngiad 25% ar gyfer unigolyn sengl neu esemptiad Dosbarth U)
- Lwfans Tai Lleol
- Cyfuniad o Gredyd Treth Gwaith ac o leiaf un o'r canlynol:
  - Credyd Treth Plant
  - Elfen Anabledd y Credyd Treth Plant
  - Elfen Anabledd Difrifol y Credyd Treth Gwaith

**Heb gynnwys:** Lwfans Byw i'r Anabl, Budd-dal Analluedd, Taliad Annibyniaeth Personol

☐ Ydy ➔ **Ewch i gwestiwn 3b**

☐ Nac ydy ➔ **Ewch i Ran 4**

**3b** Ydy'r rhoddwr wedi cael iawndal am anaf personol o dros £16,000 wedi'i ddyfarnu iddo, a gafodd ei ddiystyru pan aseswyd y rhoddwr ar gyfer un o'r budd daliadau a restrwyd yn 3a?

☐ Ydy, ➔ **Ewch i Adran 4**

☐ Nac ydy, mae'r rhoddwr yn gymwys am esemptiad.

## Adran 4 – Gostyngiad ffi ar sail incwm blynyddol gros neu Gredyd Cynhwysol

A yw incwm blynyddol gros y rhoddwr yn llai na £12,000?

☐ Ydy. Hoffwn wneud cais am 50% o ostyngiad yn y ffi wedi'i seilio ar incwm blynyddol gros y rhoddwr. ➔ **Rhaid cynnwys tystiolaeth.**

☐ Nac ydy

A yw'r rhoddwr yn derbyn Credyd Cynhwysol?

☐ Ydy, hoffwn wneud cais am ostyngiad ar sail bod y rhoddwr yn derbyn Credyd Cynhwysol. ➔ **Rhaid cynnwys tystiolaeth.**

☐ Nac ydy

## Adran 5 – Datganiad

Rwy'n datgan bod yr wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth ac amgaeaf y dystiolaeth ddogfennol ofynnol i gefnogi'r hawliad am esemptio neu ostwng y ffi.

Rwy'n deall y caiff y cais hwn ei wrthod os byddaf yn gwrthod i ddarparu'r dystiolaeth.

Llofnod ____________________

Dyddiad ____________________

**Dychwelwch eich cais ar ôl ei gwblhau i:**

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
Bwlch Swyddfa'r Post 16185,
Birmingham B2 2WH
or DX 744240 Birmingham 79

Ailosod | Argraffu